# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 20 Medi 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu ehangu Bagloriaeth Cymru? (WAQ50366)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Rydym wrthi'n ehangu nifer y canolfannau sy'n cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a chwmpas cwmpas y Cymhwyster ei hun.

O'r mis hwn ymlaen bydd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cael ei gyflwyno ym maes dysgu ôl-16. Bellach mae 76 o ganolfannau wedi cael eu cymeradwyo i gyflwyno rhaglenni Bagloriaeth Cymru ar lefelau Uwch a Chanolradd mewn darpariaeth ôl-16, gan gynnwys dau ddarparydd hyfforddiant yn y gwaith am y tro cyntaf. Bellach mae'r Cymhwyster ar gael ym mhob ardal Awdurdod Addysg Lleol yng Nghymru. Mae hyn yn ein dod yn nes o lawer at gyflawni'r targed o gael o leiaf 25% o ddysgwyr ôl-16 yng Nghymru i ddilyn cyrsiau Bagloriaeth Cymru erbyn 2010.

Cyflwynwyd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel Sylfaen mewn 18 o ysgolion a cholegau Addysg Bellach peilot ym mis Medi 2006. Mae'r model lefel Sylfaen yn cael ei dreialu yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ogystal â darpariaeth ôl-16. Yng Nghyfnod Allweddol 4 mae'r model Canolradd hefyd yn cael ei dreialu. Ar gyfer y flwyddyn academaidd hon mae'r cam hwn o'r cynllun peilot wedi cael ei ymestyn i 16 yn rhagor o ysgolion a cholegau.

Yn olaf, rydym yn cydweithio â phartneriaid gyda'r bwriad o sicrhau y bydd elfennau Prif Ddysgu a Phrosiect y Diplomâu 14-19, a arweinir gan gyflogwyr ac sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn Lloegr, ar gael yn raddol o fewn fframwaith Bagloriaeth Cymru. Mae'r ddwy elfen yn cael eu datblygu fel cymwysterau unigol. Ein nod yw sicrhau y bydd y pum maes dysgu cyntaf (Peirianneg; Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig; TG; Creadigol a'r Cyfryngau; Cymdeithas, Iechyd a Datblygiad) ar gael yng Nghymru o 2009. Caiff y meysydd dysgu sy'n weddill eu cyflwyno yn ystod 2010 a 2011.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys elfen alwedigaethol ym Magloriaeth Cymru? (WAQ50367)

**Jane Hutt:** Cynlluniwyd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru fel cymhwyster a fyddai'n rhoi pwys cyfartal i bob llwybr dysgu. I ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, mae'n rhaid i bob myfyriwr gwblhau pwnc Craidd gorfodol, sy'n datblygu amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth. Rhaid i fyfyrwyr hefyd gwblhau cymwysterau Dewisol, y gellir eu dewis o'r ystod lawn o gymwysterau allanol a gymeradwyir i'w defnyddio yng Nghymru.

O ganlyniad, o gychwyn y cynllun peilot ym mis Medi 2003, denwyd myfyrwyr Cymhwyster Bagloriaeth Cymru o amrywiaeth o lwybrau dysgu. Mae myfyrwyr sy'n dilyn cymwysterau galwedigaethol fel eu Dewisiadau bob amser wedi bod yn rhan bwysig iawn o'r datblygiad.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn awyddus i fyfyrwyr yng Nghymru fanteisio ar y ddarpariaeth newydd a arweinir gan gyflogwyr sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r Diplomâu 14-19 yn Lloegr. Felly, rydym yn cydweithio â phartneriaid gyda'r bwriad o sicrhau y bydd elfennau Prif Ddysgu a Phrosiect y Diplomâu 14-19, a arweinir gan gyflogwyr ac sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn Lloegr, ar gael yn raddol o fewn fframwaith Bagloriaeth Cymru. Mae'r ddwy elfen yn cael eu datblygu fel cymwysterau unigol. Ein nod yw sicrhau y bydd y pum maes dysgu cyntaf (Peirianneg; Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig; TG; Creadigol a'r Cyfryngau; Cymdeithas, Iechyd a Datblygiad) ar gael yng Nghymru o 2009. Caiff y meysydd dysgu sy'n weddill eu cyflwyno yn ystod 2010 a 2011.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pryd y cyflwynir cyllidebau tair blynedd ar gyfer ysgolion a cholegau addysg bellach? (WAQ50368)

**Jane Hutt:** Rydym yn cyflwyno setliadau llywodraeth leol tair blynedd yng Nghymru o fis Ebrill 2008. Byddwn yn ymgynghori cyn bo hir ar reoliadau o dan Ddeddf Addysg 2005 a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu cyllidebau tair blynedd dangosol ar gyfer eu hysgolion o'r un dyddiad.

Mae swyddogion yn adolygu prosesau cyfredol i benderfynu sut i wella gwybodaeth gyllidebol o ran darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion ac addysg bellach.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Yn sgil ei ateb i WAQ50308 ynghylch yr ymateb i ddogfen Trysorlys Ei Mawrhydi, 'Unclaimed assets distribution mechanism: a consultation', a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ymateb a gyflwynwyd? (WAQ50365)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** Ni fyddai'n briodol i mi ryddhau copi o'r ymateb a gyflwynwyd i Drysorlys Ei Mawrhydi yn y cam hwn o'r broses. Byddaf yn sicrhau bod copïau o'r holl ddogfennau perthnasol yn cael eu gosod yn Llyfrgell yr Aelodau unwaith y derbynnir y Mesur.